

Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

1. Dylai mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu gael eu cynnal gyda mwy o amser wedi'i neilltuo ar gyfer sesiynau rhyngweithiol. A fydd mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal?

Bydd. Rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer cynnal digwyddiadau ymgysylltu ym mis Ionawr. Byddwn yn ystyried yr adborth a ddarparwyd ar y digwyddiadau ymgysylltu eleni wrth i ni drefnu'r digwyddiad ymgysylltu nesaf (sy'n debygol o gael ei gynnal ym mis Ionawr 2023)

2. Â phwy y gallwn gysylltu ynghylch diwygio gwasanaethau deintyddol y tu allan i'r digwyddiadau ymgysylltu?

Mae'r digwyddiadau ymgysylltu ond yn un ffordd o nifer i ddarparu adborth, i awgrymu atebion arloesol ac i ofyn cwestiynau. Gallwch gysylltu â ni ar dentalpublichealth@wales.nhs.uk drwy gydol y flwyddyn gydag unrhyw sylwadau a datrysiadau arloesol ar gyfer diwygio gwasanaethau deintyddol. Bydd y tîm rheoli rhaglenni yn anfon eich sylwadau a'ch awgrymiadau at yr arweinwyr ffrwd waith priodol neu i Swyddfa'r Prif Swyddog Deintyddol o fewn Llywodraeth Cymru.

3. Sut mae strwythur Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) wedi newid yn seiliedig ar adborth blaenorol, sef bod angen i'r proffesiwn deintyddol darparu mewnbwn yn uniongyrchol i mewn i'r broses o ddiwygio gwasanaethau deintyddol a'r polisi deintyddol?

Mae gan Raglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) bellach bedwaredd ffrwd waith yn seiliedig ar adborth. Cafodd y ffrwd waith hon ei hychwanegu at ddiben ymgysylltu proffesiynol ac i sicrhau bod gan GDS fewnbwn uniongyrchol i'r polisi deintyddol. Bydd y ffrwd waith hon yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Deintyddol.

Caiff y ffrwd waith hon ei chadeirio gan Russell Gidney, Cadeirydd Pwyllgor Practisau Deintyddol Cyffredinol Cymru.

4. O fewn metrigau 2022/23, nid yw'n deg bod angen i bractis sy'n gweld ac yn trin cleifion anghenus iawn weld yr un nifer o gleifion â phractis arall sy'n gweld ac yn trin cleifion llai anghenus. Sut y bydd hyn yn cael ei ystyried wrth adfachu ac adolygu'r contract ar ddiwedd y flwyddyn?

Mae Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a sefydliadau partner eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen ddiwygio yn deall bod cyfyngiadau i'r nifer metrig presennol (nifer y cleifion i'w gweld bob blwyddyn). Mae Llywodraeth Cymru a phob Bwrdd Iechyd yn cytuno y bydd y broses o adolygu'r contract ar ddiwedd y flwyddyn yn deg ac yn ystyried tystiolaeth o bractisau yn gweld ac yn trin cleifion anghenus iawn. Mae ffrwd waith gyntaf y rhaglen ddiwygio yn dadansoddi data eleni ar hyn o bryd.

Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Deintyddol mewn digwyddiadau ymgysylltu diweddar, caiff canllawiau adolygu'r contract ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer diwygio practisau, ac unrhyw ddiwygiadau i fetrigau 2023/24, eu cyhoeddi cyn diwedd mis Rhagfyr.

Dylai ffrwd waith 4, y cyfeirir ati uchod, gael cyfle i ddarparu mewnbwn i'r canllawiau hyn hefyd.

5. A oes angen i bob claf o dan y categori 'Coch' ar gyfer pydredd dannedd a/neu beriodontitis a/neu gyflyrau eraill gael eu gweld bob tri mis i'w harolygu?

Nac oes. Mae'r lefel anghenion atal a thrin cleifion o dan y categori 'Coch' ar gyfer un cyflwr deintyddol ar asesiad cynhwysfawr i risgiau ac angen (ACORN), neu bob un o'r tri chyflwr, yn amrywio'n fawr. Yn yr un modd, bydd y dewisiadau a'r gwerthoedd yn amrywio o un claf i'r llall. Felly, bydd angen i'r broses o gynllunio'r gwaith o atal a thrin cleifion gael ei gyd-greu gyda'r claf (neu rieni/warchodwyr fel y bo'n briodol), gan gynnwys pennu pa mor aml y dylid arolygu'r achos ar ôl cyflawni cwrs atal a thrin.

Efallai y bydd dau glaf sydd â'r un lefel o anghenion triniaeth yn elwa ar ddulliau atal a thrin a chyfnodau rhwng arolygu'r achos gwahanol o fewn cynllun gofal deintyddol blynyddol. Dylai'r timau deintyddol gadw nodiadau clinigol cywir.

6. Mae cleifion sydd ar restr y practis (hen gleifion) yn wynebu anfantais gan fod angen i bractisau weld cleifion newydd sydd angen cael eu trin. Pa mor deg yw hynny?

O fewn y nifer metrig (cleifion hen a newydd bob blwyddyn), mae'r mwyafrif o'r cleifion a gaiff eu gweld yn 'hen gleifion' o restr y practis. Yn unol â'r egwyddor o greu anghenion ar sail canlyniadau sy'n canolbwyntio ar wasanaethau deintyddol, bydd angen i bractisau deintyddol flaenoriaethu cleifion sydd angen cael eu trin (cleifion hen a newydd) yn hytrach na'r rhai sydd â hanes o iechyd y geg da (hen gleifion). Rydym yn deall y gall y broses egluro nad oes angen i rai cleifion ymweld â'r deintydd bob chwe mis, er eu bod yn dymuno gwneud hynny, fod yn un heriol.

7. A yw blaenoriaethu cleifion ar sail yr angen am driniaeth yn golygu na fyddai rhai o'r cleifion sydd â hanes o geg iach ac sydd ar restr y practis yn gallu cael eu galw yn ôl o fewn 12 mis?

Ydy. Oherwydd effaith y pandemig, efallai na all rhai o'r practisau alw cleifion sydd â cheg iach yn ôl wedi cyfnod o 12 mis ac mae'n bosibl y bydd yr amserlen galw yn ôl ar gyfer y cleifion hyn yn ymestyn. Fodd bynnag, dylai'r cleifion hyn gael eu gweld gan bractisau os bydd angen gofal deintyddol brys arnynt.

8. A fydd y metrigau ar gyfer 2023/24 yn cael eu diwygio ar ôl cynnal trafodaethau a chael adborth yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu?

Derbyniodd y diwygiad arfaethedig i'r nifer metrig, a oedd yn cynnwys cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt o fewn y targed cleifion newydd, adborth cadarnhaol yn ystod y digwyddiad ymgysylltu ym mis Medi. Caiff y metrigau ar gyfer 2023/24, ac adolygiad contract diwedd blwyddyn ar gyfer 2022/23, eu cyhoeddi cyn diwedd mis Rhagfyr 2022.

9. Beth fydd y neges nesaf a gaiff ei chyfathrebu â'r cyhoedd?

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu proses gyfathrebu â'r cyhoedd a'r cyfryngau unedig i dynnu sylw at effeithiau peidio â mynychu apwyntiadau. Neges gyffredinol

fydd hon gan fod y mater yn effeithio ar bob gofal a gynlluniwyd, yn ogystal â gwasanaethau deintyddol. Bydd asedau cyfryngau cymdeithasol ar gael ar gyfer pob un o dimau Cyfathrebu'r Byrddau Iechyd a byddant yn cael eu defnyddio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Caiff practisau deintyddol eu hannog i ddefnyddio'r adnodd hwn a fydd ar gael drwy wefan Helpwch Ni i'ch Helpu Chi: <https://llyw.cymru/helpwch-ni-ich-helpu-chi>.